



YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 ✉ pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk

Pennaeth Mewn Gofal / *Acting Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor



Mehefin 6ed 2016

Annwyl Rieni,

Bydd gweddill y tymor yma yn andros o brysur yn yr ysgol. Bydd nifer o weithgareddau chwaraeon a gweithgareddau yn digwydd y tu allan ac felly bydd newid munud olaf i'r trefniadau pan fydd hi yn dywydd gwlyb yn anochel. Cadwch olwg am negeseuon testun, ebyst a'r calendar ar ein gwefan www.parcybont.co.uk sy'n cael ei ddiweddarau yn gyson.

Gofynnaf yn garedig i chwi sicrhau y bydd gan eich plentyn ddillad ymarfer corff, treinyrs a chap haul bob dydd dros y tair wythnos nesaf.

Dyma drosolwg o'r digwyddiadau ac fe fydd rhagor o fanylion i ddilyn. Efallai y bydd rhagor o ddigwyddiadau yn cael eu trefnu.

Dyddiad	Pwy?	Gweithgaredd / Digwyddiad	Bydd eich plentyn angen:
Dydd Mawrth 7/6/16	Rhieni	Cyfarfod CRHA 6pm (Trefnu Ffair Haf)	---
Dydd Mawrth 14/6/16	Meithrin a Derbyn	Ymweliad addysgol - Traeth Aberffraw gyda'r Ymddiriedolaeth Natur.	Bocs bwyd a diod. Dillad ac esgidiau addas, eli haul, cap haul.
Dydd Mawrth 14/6/16	Bl. 5 a 6	Gwyl Golff 9.30 - 11.30 Henllys Hall.	Dillad ymarfer corff / pâr o esgidiau sbâr. Cyfraniad: £2.50 plis
Dydd Iau 16/6/16	Pawb	Gwynant Parri - Tynnu lluniau ysgol (Croeso i aelodau o'r teulu ddod i'r ysgol i dynnu llun teulu o 8.30am ymlaen.)	Gwisg ysgol.
Dydd Iau 16/6/16	Derbyn - Bl.6	Cefnogi tim pêl droed Cymru - Ewro '16 Bydd gêm Cymru v Lloegr ymlaen ar y sgrîn fawr i'r rhai sy'n dymuno ei gwyllo. Hefyd, mae croeso iddynt aros i wyllo diwedd y gêm hyd at 3.45pm	Dewisiol - crys Cymru i gefnogi. **Bydd rhaid gwisgo gwisg ysgol yn y bore i dynnu lluniau ysgol**
20/6/16 - 24/6/16	Pawb	WYTHNOS CHWARAEON	Dillad ymarfer corff a threinyrs
Dydd Mawrth 21/6/16	Pawb	Mabolgampau a Ffair Haf 1.30pm - 4.30pm	Dillad ac esgidiau ymarfer corff. Cânt wisgo lliw eu tim os ydynt yn dymuno - manylion i ddilyn
Dydd Mawrth 21/6/16	Pawb	Fan Llyfrgell	Dychwelyd POB llyfr yn ôl i'r ysgol erbyn y diwrnod yma.
Dydd Iau 23/6/16	20 o blant Bl.3-6	Gwyl Rygbi Tag - Llangefni	Bocs bwyd, esgidiau a dillad ymarfer corff. (Manylion i'r unigolion perthnasol i ddilyn.)
27/6/16	Pawb	Taith Gerdded Noddedig Babanod: Llwybrau Llanddaniel Bl.3-6: Ynys Llanddwyn	Esgidiau addas, eli haul, cap haul. Côt law os fydd angen.
28/6/16 ; 29/6/16 & 30/6/16	Bl.6	Dyddiau cynefino yn Ysgol David Hughes	Diwrnod 1af - arian cinio am y tridiau (tua £10) gan y byddent yn dechrau'r system sganio bysedd yn syth (neu focs bwyd.)
30/6/16	Meithrin	Meithrin yn yr ysgol drwy'r dydd.	£2 am ginio - Pei Cyw Iâr a thatws neu focs bwyd.



8/7/16	Pawb	Dosbarthu adroddiadau ysgol	---
12/7/16	Rhieni	Noson Agored i Rieni Trafod adroddiadau / edrych ar waith plant.	---
18/7/16	Pawb	TRIPIAU HAF Babanod (Meithrin – Fl.2): Fferm Hufen Iâ, Gaer. Adran Iau (Bl.3 i 6): Crocky Trail, Gaer. Cychwyn am 9am a dychwelyd erbyn tua 4pm	**Gweler y manylion isod.
20/7/16		Ysgol yn cau am wyliau'r haf	

Tripiau Haf 18/7/16

Adran Iau – Crocky Trail, Gaer.

Gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £15 y plentyn tuag at y bws a'r gweithgareddau. Bydd eich plentyn angen gwisg ysgol, hen esgidiau, côt law ysgafn, bocs bwyd a diod, cap ac eli haul, pres gwario (dim mwy na £5).

Babanod – Fferm Hufen Iâ, Gaer.

Gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £15 y plentyn tuag at y bws, y gweithgareddau ac hufen iâ. Bydd eich plentyn angen gwisg ysgol, côt law ysgafn, bocs bwyd a diod, cap ac eli haul, pres gwario (dim mwy na £5), dillad sbâr i newid ar ôl bod yn chwarae yn y lle chwarae gwlyb. Mae croeso i chwi fel rhieni ymuno â ni ar y trip yma am £10 y rhiant. Nifer cynfyngedig o seddi ar y bws felly cyntaf i'r felin! Os nad ydych yn dymuno dod, mi fydd aelodau o staff yn gyfrifol am eich plentyn. Llenwch y bonyn sy'n atodol a'i dychwelyd i'r ysgol o.g.y.dd.

Diolch o flaen llaw am eich cydweithrediad.

Yn gywir,

Iwan Wyn Taylor

